Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JH-/2338/19

Holl Aelodau'r Cynulliad

24 Mehefin 2019

Annwyl Gyfeillion,

Rydw i'n ysgrifennu i roi'r newyddion diweddaraf ichi ynghylch ymgyrch gyfathrebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), **Nid cariad yw hyn: Rheolaeth yw Hyn**.

Lansiwyd yr ymgyrch gennyf ym mis Ionawr 2019, ochr yn ochr â Luke Hart. Lladdwyd mam a chwaer Luke gan ei dad a oedd yn eu rheoli drwy orfodaeth. Siaradodd Yasmin Khan, un o'n Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn y digwyddiad, a chlywsom hefyd bobl sydd wedi goroesi camdriniaeth yn siarad yn rymus ynghylch eu profiadau o gael eu rheoli drwy orfodaeth.

Lluniwyd yr ymgyrch hon i ddangos natur gudd rheoli drwy orfodaeth a'r modd y mae'n cronni yn y dirgel, ac i godi ymwybyddiaeth o reoli drwy orfodaeth fel math o gam-drin domestig. Nod yr ymgyrch yw helpu pobl i adnabod ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli, ac i sylweddoli eu bod yn fathau o gamdriniaeth ac yn anghywir, ac i annog pobl yng Nghymru i gysylltu â llinell gymorth *Byw Heb Ofn* i gael cyngor a help.

Mae'r ymgyrch wedi ymddangos ar y teledu yn genedlaethol, ar sianeli digidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Darparwyd posteri a thaflenni i gydgysylltwyr cam-drin domestig yng Nghymru ac i ganolfannau iechyd a lleoliadau cymunedol eraill.

Hyd yn hyn, mae ffilmiau'r ymgyrch wedi cael eu gwylio fwy na 200,000 o weithiau ar-lein ac mae data cynnar ynghylch llinell gymorth *Byw Heb Ofn* yn awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau a gafwyd ynghylch rheoli drwy orfodaeth o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Datblygwyd yr ymgyrch i adlewyrchu profiadau grwpiau amrywiol a rhai sy'n cael eu tangynrychioli. Mae cyfres o bosteri ar gael nawr mewn gwahanol ieithoedd ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynyddu'n fwy fyth nifer y bobl y bydd yr ymgyrch yn eu cyrraedd. Gellir lawrlwytho'r rhain yma https://llyw.cymru/ymgyrch-rheolaeth-yw-hyn-deunyddiau-hyrwyddo ynghyd ag amrywiaeth o ddeunyddiau eraill o'r ymgyrch.

Mae deunyddiau ein hymgyrch ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu rhannu drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ei hun neu gydag unrhyw grwpiau, cymunedau neu sefydliadau perthnasol yn ei ardal.

Gwn y byddwch yn ymuno gyda mi i annog pawb i barhau i weithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o reoli drwy orfodaeth ac i helpu i gael gwared ar unrhyw fath o drais a chamdriniaeth yng Nghymru.

Yn gywir,

Jane

Jane Hutt AC
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip